

Rhif: WG16166



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynigion i ddiwygio'r gofynion ar
gyfer cofrestru'r gweithlu addysg
yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2012

Cynigion i ddiwygio'r gofynion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru

- Cynulleidfa** Pob corff sy'n ymwneud â'r maes addysg gan gynnwys asiantaethau cyflogaeth, awdurdodau lleol, gweithwyr ieuencid a chwarae, darparwyr hyfforddiant addysg a chyrrff dyfarnu.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd ag adborth ar gynigion i ddiwygio'r gofynion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:
Nathan Huish
Yr Is-adran Cyflawni a Safonau Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3039
e-bost: practicereviewanddevelopment@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon a'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Cynnwys

Y cefndir	1
Ymgynghori	2
Crynodeb	3
Cwestiwn 1	3
Cwestiwn 2	4
Cwestiwn 3	5
Cwestiwn 4	6
Cwestiwn 5	7
Cwestiwn 6	8
Cwestiwn 7	9
Cwestiwn 8	10
Cwestiwn 9	11
Cwestiwn 10	12

Y cefndir

Ym mis Chwefror 2011, cyflwynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei agenda mewn cynllun gweithredu ugain pwynt ar gyfer addysg yng Nghymru, i godi safonau a lleihau'r bwlch cyfredol mewn cyraeddiadau.

I gyflawni'r agenda hon, mae'r Gweinidog wedi'i gwneud yn glir bod angen sicrhau bod y gweithlu addysg, o'r cyfnod sylfaen hyd at 14-19 oed, yn gweithio gyda'i gilydd fel un grŵp cydlynus o weithwyr proffesiynol, sy'n cydweithredu i wella safonau addysg a chyrhaeddiad ar gyfer pobl Cymru.

Lansiodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ymgynghoriad ar y cynnig ar 16 Rhagfyr 2011. Cyflwynodd y ddogfen ymgynghori gynnig i ymestyn yr orfodaeth gyfredol sydd ar athrawon i gofrestru â chorff proffesiynol. Bydd hynny'n cynnwys sector ehangach megis Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a staff cymorth dysgu mewn ysgolion. Yn ogystal, roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ynghylch p'un ai a ddylai fod modd i aelodau eraill o'r proffesiwn addysg sy'n cyfrannu at ddatblygiad plant a phobl ifanc, megis gweithwyr ieuenctid a staff cymorth, fedru cofrestru hefyd. Ynghyd ag ymateb i'r materion hyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr ynglŷn â'r swyddogaethau eraill y dylai corff cofrestru eu cyflawni.

Ymgynghori

Dosbarthwyd yr ymgynghoriad ar draws nifer o sectorau allweddol gan ddefnyddio ystod o rwydweithiau ac roedd cyhoeddiad yng nghylchlythyrau DYSG. Yn ogystal, cynhaliodd rhai o'r rhanddeiliaid allweddol ddigwyddiadau i drafod eu hymatebion ar y cyd i'r ymgynghoriad hwn.

Cafwyd 94 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

Cafwyd ymatebion gan y sectorau canlynol

Ymatebydd	Nifer yr Ymatebion
Cyrff Dyfarnu	3
Undebau'r Athrawon	7
Awdurdodau Lleol	4
Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion	18
Dysgu Seiliedig ar Waith	1
Darparwyr Hyfforddiant Addysg	6
Sefydliadau ac Elusennau Cenedlaethol	22
Ymarferwyr	6
Gweithiwyr Ieuencid a Gweithwyr Chwarae	10
Asiantaethau	3
Amrywiol	14
Cyfanswm	94

Mae'r ddogfen hon yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad, wedi'i strwythuro o gylch yr ymatebion a gafwyd ar gyfer pob cwestiwn. Nid yw'n ceisio crisialu pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr ond yn hytrach mae'n tynnu sylw at y materion allweddol a'r themâu. Gellir gweld rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Crynodeb

Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno dylai cofrestru gael ei ymestyn i gynnwys y gweithlu addysg ehangach yng Nghymru, fel staff cymorth dysgu ysgolion, darlithwyr addysg bellach a'r gweithlu dysgu seiliedig ar waith, yn hytrach na dim ond athrawon ysgol?

O'r 94 a ymatebodd, cytunodd 68 y cant y dylai'r broses gofrestru ymestyn i gynnwys y gweithlu addysg ehangach. Anghytunodd 3 y cant. Roedd y 29 y cant arall unai yn ansicr o'r cwestiwn neu heb roi ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn bod amryw o faterion yn codi gan gynnwys y canlynol.

- Byddai system gofrestru sydd wedi'i chynllunio ac sy'n cael ei chyflwyno'n raddol yn sicrhau y cydymffurfir â'r safonau proffesiynol, a chodi statws a phroffil pawb sy'n gweithio ym maes addysg. Dylai hyn arwain at sicrhau bod y gwahanol grwpiau o staff addysg ledled Cymru yn fwy cyfartal â'i gilydd.
- Gallai cofrestru rhai grwpiau yn unig arwain at greu is-ddosbarth o ymarferwyr na fyddent yn gymwys i gofrestru oherwydd y byddai'n rhy gymhleth neu'n rhy gostus i wneud hynny.
- Drwy ymestyn y system o gofrestru'r holl weithluoedd hynny, mae yna berygl y byddai'r gofynion llawer yn rhy amrywiol. Yn ogystal, gallai hynny o bosibl amharu ar ei allu i ddarparu corff proffesiynol arwyddocaol.
- Byddai angen ystyriaeth bellach ofalus ynghylch cofrestru'r gweithlu ym maes dysgu seiliedig ar waith oblegid natur amrywiol y gweithlu. Byddai angen i'r cyfarwyddyd nodi'n bendant pwy fydd yn gorfod cofrestru a phwy na fydd yn gorfod cofrestru.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n credu dylai unrhyw aelodau eraill o'r gweithlu addysg, er enghraifft gweithwyr ieuenctid, gweithwyr chwarae, staff eraill yr ysgol, gael eu cofrestru?

O'r 94 a ymatebodd, cytunodd 44 y cant y dylai aelodau eraill o blith y gweithlu addysg gael eu cofrestru ac anghytunodd 17 y cant. Roedd y 39 y cant arall unai yn ansicr o'r cwestiwn neu heb roi ateb pendant.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn at nifer o bwyntiau a phryderon ynghylch pwy ddylai gofrestru. Roedd rhai o'r pryderon a'r cwestiynau yn cynnwys y canlynol.

- Dylai unrhyw un sy'n cyfrannu at ddysgu yng Nghymru gael eu cofrestru. Byddai hynny'n cynnwys gweithwyr ieuenctid, gweithwyr chwarae a staff eraill mewn ysgolion. Ond byddai'n eithrio staff nad ydynt yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddysgu. Nid oes rhesymau dros gynnwys staff gweinyddol nad oes ganddynt rôl uniongyrchol yn addysg y disgyblion.
- Mae'n bwysig iawn bod yr holl staff yn cael cydnabyddiaeth. Byddai cofrestru yn rhoi gwybodaeth am bwy sy'n gweithio ymhle.
- Byddai angen eglurhad pellach ynghylch pwy ddylai gofrestru a byddai angen rhoi sylw gofalus i'r meysydd annelwig.
- O ran y staff nad ydynt yn athrawon cymhwysedig, yn ddarlithwyr Addysg Bellach nac yn Gynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch ac nad yw'n ofynnol iddynt arddangos cymhwysedd sy'n cydymffurfio â safonau proffesiynol, gellid eu cofrestru ar sail 'trwydded' yn hytrach na bod angen iddynt gwrdd â meini prawf o gymwysterau.
- Dylai ymestyn y trefniadau cofrestru y tu hwnt i Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith fod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad arall unwaith y bydd y corff newydd wedi'i sefydlu ac wedi'i roi ar waith yn effeithiol.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno dylai swyddogaethau corff cofrestru yng Nghymru gynnwys cadarnhau fod unigolion wedi'u cymhwyso'n briodol ac yn addas i ymarfer yn ogystal â swyddogaeth ddisgyblu a honno'n arwain, o bosibl, at wahardd unigolion y bernir eu bod yn anaddas?

O'r 94 o ymatebwyr, cytunodd 65 y cant â swyddogaethau corff cofrestru fel y nodwyd yn y cwestiwn. Anghytunodd 1 y cant. Roedd y 34 y cant arall unai yn ansicr o'r cwestiwn neu heb roi ateb pendant.

Gwnaeth yr ymatebwyr amryw o sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn gan gynnwys y canlynol.

- Elfen allweddol wrth ddiffinio unrhyw broffesiwn yw bod ei gorff proffesiynol, annibynnol yn cadw golwg ar bwy sy'n cael cofrestru â'r proffesiwn a phwy sy'n cael eu gwahardd. Dylai corff cofrestru sicrhau bod gan unigolion y cymwysterau priodol ar gyfer eu rôl a bod cofrestr o'r fath yn annog y rheini sydd heb gymwysterau priodol i fynd ati i sicrhau eu bod yn cael cymwysterau priodol.
- Dylai fod gan y corff swyddogaeth disgyblu a dylai fod yn gyfrifol am gyflawni'r rôl honno. Yn ogystal, byddai angen proses apelio. Byddai system o'r fath yn gymhleth i'w sefydlu a'i rheoli ond byddai'n rhoi hyder yn y system, yn rhoi hygredded i'r broses gofrestru ac yn sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal.
- Dylai'r cyfrifoldebau a gyflawnir o fewn fframwaith cyffredinol y corff cofrestru ddod o dan reolaeth uniongyrchol y corff proffesiynol perthnasol neu gyrff addas eraill. Ni ddylai corff generig nad yw'n cynrychioli'r proffesiwn o dan sylw yn benodol fynd i'r afael â'r cyfrifoldebau hynny.
- Byddai angen i'r diffiniad o "wedi'u cymhwyso'n briodol" fod yn glir. Mae'n ymddangos y byddai'n angenrheidiol bod unrhyw un sy'n gyfrifol am gyflenwi'r dysgu i fyfyrwyr ac am asesu a rhoi adborth ar waith y myfyrwyr wedi cyrraedd y lefelau priodol o safbwynt llythrennedd a rhifedd. Mae angen rhoi ystyriaeth i gyfwerthedd, i esemptiadau a chydabod cymwysterau eraill (ee cymwysterau rhagflaenol a chymwysterau o dramor).
- Yn ddibynnol ar y gofynion a nodir ar gyfer cofrestru, gallai unigolion sy'n gweithio ym maes addysg yn barod, o bosibl, gael eu heithrio rhag cofrestru.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno dylai penderfyniadau am swyddogaethau fel disgyblaeth a chymhwysedd proffesiynol gael eu gwneud yn annibynnol ar y llywodraeth?

O'r 94 o ymatebwyr, cytunodd 67 y cant y dylid gwneud penderfyniadau am swyddogaethau megis disgyblu a chymwyseddau proffesiynol yn annibynnol ar y llywodraeth. Anghytunodd 3 y cant o'r ymatebwyr ac roedd y 30 y cant arall unai yn ansicr o'r cwestiwn neu heb roi ateb pendant.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn at nifer o bwyntiau a oedd yn ymwneud â'r materion canlynol.

- Fe'i hystyrir yn hanfodol i roi sefydlogrwydd, i sicrhau parhad ac i fod yn annibynnol o unrhyw farn wleidyddol.
- Er mwyn i'r rôl ennyn hygrededd y proffesiwn, ni ddylai'r Llywodraeth ymgymryd â'r rôl hon. Mae'n rhaid i bobl broffesiynol fod yn feirniaid ar bobl broffesiynol. Rydym yn hollol bendant nad y Llywodraeth a ddylai fod yn rheoli'r proffesiwn ond y dylai hynny ddeillio yn hytrach o'r proffesiwn ei hun.
- Mae'n hollbwysig mai dyna yw'r drefn. Heblaw am hynny, ni fydd aelodau'r proffesiwn yn teimlo eu bod yn gyfrifol am y proffesiwn ac o ganlyniad fe ystyrir y corff fel llais i'r Llywodraeth yn unig.
- Rôl y corff proffesiynol yw cynnal safonau ac ymddygiad proffesiwn. Fodd bynnag, gan fod y Llywodraeth yn gyfrifol am addysg y genedl, mae'n atebol i'r cyhoedd am y proffesiwn addysgu. Yn yr ystyr hwn, byddai partneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r Cyngor Addysgu o fudd i bawb.
- Ymddengys bod y model yn yr Alban yn gweithio'n dda. Yno, gwneir y penderfyniadau gan gorff hyd braich, sy'n cynnwys aelodau o'r proffesiwn. Yna, caiff y penderfyniadau eu bwydo yn ôl i gangen o'r Llywodraeth.
- Dylai cynrychiolwyr o'r maes, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol a chynrychiolwyr yr undebau llafur, wneud penderfyniadau ynghylch y swyddogaethau hyn.
- Byddai'n rhaid i'r corff annibynnol ymgynghori'n eang gyda'r sector addysg er mwyn datblygu meini prawf, gweithdrefnau a sancsiynau oherwydd byddai angen i'r rhain gysylltu â gweithdrefnau'r sefydliadau eu hunain.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno y dylai'r corff cofrestru newydd neu'r corff sydd wedi'i ailgyfansoddi, pa un bynnag y penderfynir arno, gael swyddogaethau ehangach gam wrth gam? Gallai'r rheini gynnwys cymeradwyo cyrsiau hyfforddiant cychwynol, y gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a gosod safonau proffesiynol.

O'r 94 o ymatebwyr, cytunodd 42 y cant y dylid ychwanegu swyddogaethau ehangach a dylid eu cyflwyno'n raddol. Anghytunodd 1 y cant ac roedd y 57 y cant arall unai yn ansicr o'r cwestiwn neu heb roi ateb.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr a gyfrannodd sylwadau ar y cwestiwn hwn at nifer o bwytiau. Roedd y pwyntiau'n cwmpasu nifer o faterion a oedd yn ymwneud â phrinder manylion yn y ddogfen ymgynghori o safbwynt sut y byddai'r cynigion yn cael eu gweithredu. Mae'r sylwadau canlynol yn rhoi blas i chi o'r sylwadau a gafwyd.

- Pe bai'r corff cofrestru yn caniatáu'r cyrsiau hyfforddiant cychwynol, y gofynion ar gyfer Datblygiad Personol Parhaus ac yn gosod y safonau proffesiynol, a fyddai hynny'n tansailio rôl ac awdurdod Estyn neu unrhyw gorff arall sydd wedi'i sefydlu'n barod?
- Dylai'r penderfyniad ynghylch pryd y caiff hwn ei gyflwyno a sut y dylid mynd ati i wneud hynny gael ei gadarnhau ar sail broffesiynol yn hytrach nag ar sail wleidyddol.
- I gychwyn, dylai'r corff cofrestru ganolbwyntio ar gofrestru. Byddai unrhyw swyddogaethau ehangach a fyddai'n cynorthwyo'r dysgu a'r addysgu fel eu bod yn fwy effeithiol yn cael eu croesawu ar yr amod y ceir ymgynghoriad eang a dilys ar eu cyfer.
- Dylai'r cyflogwr a'r cyflogai fynd ati bob blwyddyn i gytuno ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus gan wneud hynny fel rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yr unigolyn. Nid corff ddylai fod yn gyfrifol am hyn.
- Os yw gweithwyr ieuenctid wedi'u cofrestru gan gorff, gallai eu gwaith gael ei ysgogi gan addysg ffurfiol a'i ddylanwadu gan agenda'r ysgolion. Yna, yn eu tro, gallant ddylanwadu ar egwyddorion a phwrpasau craidd gwaith ieuenctid.
- Dylai unrhyw drefniadau newydd ddefnyddio'r trefniadau sy'n bodoli eisoes yn hytrach na cheisio eu disodli â chorff proffesiynol.
- Sut y byddai hyfforddiant a datblygiad personol yn cael eu hariannu yn y sector gwirfoddol?

Cwestiwn 6

Yn eich barn chi, a oes unrhyw swyddogaethau penodol eraill dylai'r corff cofrestru newydd neu'r corff a ailgyfansoddwyd ymgymryd â nhw?

O'r 94 a ymatebodd, roedd 22 y cant yn credu nad oedd unrhyw swyddogaeth benodol arall y dylai corff cofrestru ei chyflawni. Fodd bynnag, nododd 5 y cant o'r 94 a ymatebodd nad oedd unrhyw swyddogaeth arall y dylai corff cofrestru ei chyflawni. Roedd y 68 y cant arall unai yn ansicr o'r cwestiwn neu heb roi ateb.

Nododd yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn amryw o swyddogaethau y gallai'r corff ymgymryd â nhw. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol.

- Dylai'r corff cofrestru anfon bwletinâu yn rheolaidd yn sôn am yr hyn sy'n digwydd, gwybodaeth am gymwysterau newydd a chydabod y rheini sydd wedi ennill cymwysterau uwch.
- Adolygu anghenion y gweithlu ac anghenion recriwtio a rhoi cyngor.
- Dylai'r corff cofrestru fod yn gallu rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar ran y proffesiwn a chynrychioli'r proffesiwn addysgu (ac addysg) yn ei chyfanrwydd.
- Bydd corff cofrestru newydd yn ffynhonnell o wybodaeth ac yn fodd o ledaenu arfer da sy'n ymwneud â chyflenwi dysgu.
- Gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer unigolion fel bod modd iddynt weithio ar draws gwahanol ddarparwyr hyfforddi/ sefydliadau hyfforddi.
- Dylai fod gan y corff swyddogaeth i ymchwilio. Ar hyn o bryd, nid oes digon o waith ymchwil wedi'i wneud ar addysgeg ac ymarfer addysgol ym maes addysg a hyfforddiant yng Nghymru (yn enwedig ym maes addysg a hyfforddiant ôl -16).
- Bydd yn rhaid i'r corff newydd fonitro safonau gan sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant yn cael mynediad rheolaidd a phriodol i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, ac yn cael cefnogaeth.

Cwestiwn 7

Yn eich barn chi, sut orau mae cael arbenigedd proffesiynol priodol ar gyfer y corff cofrestru newydd neu'r corff a ailgyfansoddwyd? Ai sefydlu un cyngor proffesiynol, sydd ag aelodau ag arbenigedd o bob rhan o'r gweithlu addysg ehangach, neu sefydlu cyfres o gynghorau sector, a phob un o'r rheini ag arbenigedd mewn rhan benodol o'r gweithlu?

O'r 94 a ymatebodd, roedd 51 y cant yn cefnogi'r angen am un cyngor proffesiynol ag iddo aelodau ag arbenigedd ar draws y gweithlu addysg ehangach. Roedd 18 y cant o'r 94 a ymatebodd yn credu y byddai cael cyfres o gynghorau sector yn fwy priodol a phob un o'r cynghorau sector hynny'n arbenigo mewn maes penodol o'r gweithlu. Roedd y 30 y cant arall unai yn ansicr o'r cwestiwn neu heb roi ateb pendant.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr a gyfrannodd sylwadau ar y cwestiwn hwn at nifer o bryderon a chodwyd pwyntiau dilys ganddynt. Roedd rhai o'r sylwadau a godwyd yn cynnwys y canlynol.

- Y gost o sefydlu cyfres o gynghorau sector.
- Pwysigrwydd bod y cyngor yn ystyrllon ac yn gyson.
- Yr angen i gael arbenigedd cywir wrth ystyried cymhwysedd proffesiynol.

Cwestiwn 8

Ydych chi o'r farn dylai pob un sy'n cofrestru dalu un ffi safonol, neu a ddylid cyflwyno ffioedd amrywiol?

O'r 94 a ymatebodd, roedd 53 y cant yn cefnogi ffi ar raddfeydd gwahaniaethol; ac roedd 12 y cant o'r 94 a ymatebodd yn credu mai ffi ar gyfradd safonol fyddai orau. Roedd y 36 y cant arall unai yn ansicr o'r cwestiwn neu heb roi ateb pendant.

Amlinellir crynodeb o'r ymatebion isod. Maent yn nodi'r rhesymeg ar gyfer y ddau ddull o weithredu.

- Byddai ffioedd ar raddfeydd gwahanol yn adlewyrchu'r cyfraddau cyflog gwahanol ar draws y gweithlu addysg.
- Mae'n debygol y byddai ffi ar gyfradd safonol yn cael effaith andwyol ar y gweithlu addysg. Ni fyddai ffi cofrestru yn annog ymarferwyr posibl i ymuno â'r proffesiwn.
- Mae ffi ar gyfradd safonol yn syml i'w reoli a'i weinyddu.

Cwestiwn 9

Ydych chi'n credu gallai cael mwy o eglurder a chydlyniant yn y gofynion ar gyfer materion fel cymwysterau, safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol helpu ein hymgyrch i wella safonau a hyblygrwydd ar draws y gweithlu ehangach?

O'r 94 a ymatebodd, cytunodd 56 y cant y gallai eglurder a chydlyniant yn y gofynion ar gyfer materion fel cymwysterau, safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol helpu ymgyrch Llywodraeth Cymru i wella safonau. Credai 1 y cant o'r 94 a ymatebodd na fyddai hynny'n helpu. Roedd y 43 y cant arall unai yn ansicr o'r cwestiwn neu heb roi ateb pendant.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y cwestiwn hwn at nifer o faterion.

Roedd rhai o'r sylwadau y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys y canlynol.

- Gallai mwy o eglurder a chydlyniant yn y gofynion ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud ag addysg helpu ymgyrch Llywodraeth Cymru i wella safonau. Fodd bynnag, bydd angen amser i'r holl newidiadau fwrw gwraidd cyn gwerthuso.
- Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r peryglon. Wrth i broffesiynoldeb gynyddu, mae yna berygl y bydd llai yn ymroi i ddarparu ar gyfer disgyblion o'u gwirfodd.
- Wrth i dechnoleg ddatblygu, nid oes angen rhannu'r gwasanaethau sy'n rheoleiddio ac sy'n symud y proffesiwn yn ei flaen. Caiff adnoddau eu defnyddio yn fwy effeithiol mewn strwythur wedi'i gydgyrnhoi a gellir mesur y deilliannau'n well.
- Mae diogelu lles y cyhoedd yn hollbwysig i unrhyw broffesiwn hunan-reoledig. Bydd unrhyw fesur i wella tryloywder, atebolrwydd a hygyrchedd yn rhoi mwy o eglurder ac yn arwain at welliannau o fewn y system addysg yn ei chyfanrwydd.
- Byddai'n fwy effeithiol i roi amser, ymdrech ac arian i gymorth sy'n ymarferol ac yn benodol, a'r cymorth hwnnw'n seiliedig ar anghenion athrawon a hyfforddwyr athrawon, yn hytrach na chynhyrchu rhestrau gwirio a chanllawiau y gellid o bosibl eu gorfodi arnynt.

Cwestiwn 10

Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Mewn cysylltiad â'r cwestiwn hwn, ni chafwyd ymatebion sylweddol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd yr ymatebion a gafwyd yn cefnogi'r syniad o gofrestru'r gweithlu addysg ehangach.